

Rheoli Gwefan Ddwyieithog neu Amlieithog



Uned Technolegau Iaith
Prifysgol Bangor

<http://www.catcymru.org/>

Rheoli Gwefan Ddwyeithog neu Amlieithog

Mae pob sefydliad yn ymwybodol bod gwefan yn ffordd dda o gyrraedd cwsmeriaid yng Nghymru a thu hwnt, ac mae defnyddio iaith y cwsmer yn allweddol wrth gyfathrebu a'r farchnad. Bellach dydy hi ddim yn ddigon i ysgrifennu yn Saesneg yn unig – hyd yn oed os bydd rhai yn deall Saesneg, yn eu mamiaith y byddant yn chwilio'r We, a gwefannau yn yr iaith hon a gaiff eu canfod a'u dewis

Mae'r ddogfen hon yn trafod rhai o'r pwyntiau sy'n bwysig wrth gynllunio gwefan dwyeithog neu amlieithog, at mae at ddefnydd unrhyw sefydliad sydd am greu gwefan. Bydd hefyd o ddefnydd i gyfieithwyr sydd angen esbonio'r broses o gyfieithu gwefan i'w cwsmeriaid, gan nad yw'r rhain o anghenraid yn ymwybodol o'r problemau sy'n gallu codi wrth weithio gyda mwy nag un iaith.

Ceir sawl ffordd i reoli gwefan amlieithog, ac er mwyn dewis y ffordd orau ar gyfer eich sefydliad mae angen ystyried gwahanol ffactorau.

Cynnwys y Wefan

Y cam cyntaf yw penderfynu pa gynnwys sydd ei angen ac ym mha ieithoedd.

- Pa ieithoedd fydd ar y wefan? Ydy hi'n bosibl y bydd angen rhagor yn y dyfodol?
- Oes rhaid cyfieithu popeth, neu ddarnau penodol yn unig?
- A fydd y wefan yn dweud yr un peth ym mhob iaith, neu a fydd angen testun penodol ar gyfer marchnadoedd penodol?

Rhaid wedyn dewis sut i drefnu'r cynnwys.

- Fydd union gynnwys pob tudalen ar gael ym mhob iaith? Gall hwn fod yn ddull hyblyg ac effeithlon o weithio, ond mae'n golygu cael system feddalwedd sy'n cynnal y llif gwaith hwnnw.
- Neu a fydd un dudalen yn cynnwys testun mewn dwy iaith? Weithiau mae hyn yn ddewis hawdd wrth greu gwefan fach ddwyeithog, gall achosi problemau os bydd rhagor o ieithoedd, neu lawer mwy o destun, yn cael eu hychwanegu yn y dyfodol.
- Neu, a fydd gwefan annibynnol ar gyfer pob iaith? Mae hwn yn ddull sydd yn gweithio os oes gennych chi gynnwys penodol ar gyfer ieithoedd penodol; mae rhannu cynnwys rhwng ieithoedd, fodd bynnag, yn broblemus.

Y cam nesaf yw ystyried y math o ddeunydd fydd yn mynd ar y wefan.

- Pa mor aml y bydd y wefan yn cael ei diweddarau? Yn wahanol i daflenni neu lyfrau, mae creu cynnwys gwefan yn broses parhaus, felly mae angen ystyried sut mae diweddarau'r deunydd yn y gwahanol ieithoedd.
- A fydd angen diwygio deunydd ar ôl ei gyhoeddi? Ceir rhai mathau o ddeunydd sydd ddim fel arfer yn cael eu diwygio – e.e. cofnodion blog/newyddion. Ond mae angen diwygio mathau eraill trwy'r amser – e.e. rhestrau prisiau. Gwell peidio â gorfod talu i ail-gyfieithu dogfen gyfan bob tro mae diwygiad bach, felly mae eisiau system sy'n tracio diwygiadau os bydd hyn yn digwydd yn aml.
- A fydd y wefan yn cynnwys llawer o destun “dynamig”, megis testun dewislenni, geiriau ar fotymau a brawddegau mae'r wefan ei hun yn eu cynhyrchu? Mae rhai gwefannau mewn gwirionedd yn rhaglenni cyfrifiadurol yn hytrach nac yn ddogfennau, e.e. systemau gwebost. Gall testun dynamig achosi problemau arbennig i gyfieithwyr ac i ddylunwyr gwe,

sy'n deillio, er enghraifft, o ddiffyg cyd-destun ieithyddol ac o gyfyngiadau gofod. Os oes gennych chi system debyg, bydd angen cyngor arbenigol arnoch am sut i gyfieithu rhaglenni cyfrifiadurol.

Dewis System Rheoli Cynnwys (CMS)

Os ydych chi ar fin dewis meddalwedd i reoli eich gwefan, yna arhoswch! Dyma un o'r penderfyniadau pwysicaf y byddwch chi yn eu gwneud, ac fe fydd yn dylanwadu yn fawr ar gost, safon a chysondeb eich cyfieithiadau. Mae hyn oherwydd bod llawer o amrywiaeth yn y ffordd mae gwahanol systemau yn cynnal llif gwaith amlieithog.

Bob blwyddyn mae llawer o sefydliadau mawr yn gwastraffu cannoedd o filoedd o bunnoedd, trwy ddewis systemau rheoli cynnwys sy'n anaddas ar gyfer gwefan amlieithog. Mae'n rhaid wedyn i'r staff geisio ymdopi â diffygion y system trwy gopïo a gludo testun, ac mae ail-gyfieithu diangen yn digwydd yn aml. Yn waeth fyth, gall testun anghywir neu ddiystyr ymddangos ar y wefan. Gall hyn greu delwedd wael o'r sefydliad ym meddyliau'r cwsmeriaid ac arwain at gyfleoedd busnes wedi eu colli. Mae modd osgoi'r problemau hyn trwy ddewis system addas i gynnal llif gwaith eich busnes.

Os ydych chi'n gaeth i system nad yw'n cefnogi amlieithrwydd yn llawn, mae modd i chi o leiaf gynllunio eich dull gweithredu i ymdopi â'r cyfyngiadau, er mwyn cadw costau i lawr ac osgoi gwallau.

Dyma rai cwestiynau allweddol y dylech chi eu hystyried cyn dewis system rheoli cynnwys:

- Sut mae awdur yn ychwanegu testun?
- Oes rhaid i gyfieithwyr ychwanegu cyfieithiad yn yr un ffordd, neu oes yna nodweddion cyfieithu arbennig?
- Ydy'r system yn adnabod fersiynau o'r un dudalen yn y gwahanol ieithoedd? Oes ffordd i sicrhau bod cysondeb rhwng y cyfieithiadau a'r fersiwn gwreiddiol?
- Oes modd i'r defnyddiwr newid iaith ac aros ar yr un dudalen? (Bydd rhaid iddynt wneud hyn, efallai, os ydynt wedi cyrraedd y dudalen trwy ddolen o wefan arall)
- Ydy'r system yn tracio newidiadau yn awtomatig? Oes modd i'r cyfieithydd weld beth sydd wedi'i newid? Ydy'r system yn dweud wrth y cyfieithydd bod testun yn aros i gael ei gyfieithu?
- Oes modd i'r cyfieithydd ddefnyddio meddalwedd cof cyfieithu arbennig? Mae cof cyfieithu yn cyflymu'r broses o gyfieithu ac yn gwella cysondeb, trwy ddangos cyfieithiadau blaenorol a rhestrau termau dwyieithog, yn ogystal â darparu offer gwirio iaith ayyb. Oes modd i'r system allforio/mewnforio testun mewn fformatiau safonol ar gyfer cyfieithu gwefannau, megis XLIFF?
- Ydy'r cyfieithiadau yn mynd mewn i'r system rheoli cynnwys yn awtomatig, neu oes rhaid i weinyddwr gyflawni'r dasg hon? Mae'n hawdd gwneud gwallau wrth gyflawni'r dasg, yn arbennig os nad yw'r gweinyddwr yn deall yr iaith darged, a gall cywiro gwallau o'r fath gostio mwy na'r gwaith cyfieithu ei hun.
- Oes modd i'r cyfieithydd brawfddarllen y cyfieithiad ar y wefan cyn iddo gael ei gyhoeddi?

Y Broses Gyfieithu a Chyhoeddi

Mae'n bwysig eich bod chi'n defnyddio llif gwaith cyfieithu a chyhoeddi sy'n addas ar gyfer eich gwefan, a bod yr awduron a'r cyfieithwyr yn deall y broses hon. Dyma rai cwestiynau allweddol y

dylid eu hystyried.

- Pwy sy'n ysgrifennu testun? Pa mor aml y bydd testun yn cael ei greu neu ei ddiwygio, a thua faint o destun newydd fydd yno? Rhaid cofio hefyd nad pob siaradwr iaith sydd yn gallu ysgrifennu i safon sy'n addas i gael ei gyhoeddi.
- Pwy sy'n gwneud y gwaith cyfieithu? Rhaid cofio nad pob siaradwr dwyieithog sy'n gallu cyfieithu i safon. Wrth gomisiynu gwaith cyfieithu, cofiwch ddewis cyfieithydd proffesiynol wedi'i achredu gan gorff dibynadwy megis Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru. I weld rhestr o gyrff tebyg mewn gwledydd eraill, gweler gwefan y Fédération Internationale des Traducteurs (FIT), <http://www.fit-ift.org/> .
- Sut bydd y cyfieithydd yn cael gafael ar y testun? A fydd yn cael ei hysbysu yn awtomatig pan fydd testun yn aros i gael ei gyfieithu?
- Beth yw'r llif gwaith pan fydd testun yn cael ei ddiwygio? Oes modd i'r cyfieithydd ddod o hyd i'r newidiadau yn hawdd, neu a fydd yr holl destun yn cael ei ail-gyfieithu am y gost lawn?
- Faint o amser sydd wedi ei neilltuo ar gyfer y cyfieithu? Sut bydd y cyfieithiad yn cyrraedd y wefan?
- A fydd y cyfieithydd yn prawfddarllen y cyfieithiad ar y wefan cyn iddo gael ei gyhoeddi? Oes digon o amser i gywiro gwallau?

Gwybodaeth Bellach

Trosolwg bras o reoli gwefannau amlieithog yw'r ddogfen hon, a'i bwriad yw rhestru rhai o'r cwestiynau pwysicaf. Am wybodaeth bellach, ewch at wefan CATcymru, <http://www.catcymru.org/> . Gallwch hefyd gofrestru am un o'n seminarau, lle byddwn ni'n arddangos gwahanol systemau ac offer er mwyn i chi weld pa mor addas y byddent i chi.



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY



Managing a Bilingual or Multilingual Website



Language Technologies Unit
Bangor University

<http://www.catcymru.org/>

Managing a Multilingual Website

Every organisation knows how important a website can be for reaching customers, both in Wales and across the world. Increasingly, businesses are realising they can reach more people, more effectively, if their website speaks to them in their own language. It is no longer enough to assume everyone understands English – even those who do will search first in their preferred language, and the website with content in that language will enjoy higher search rankings and greater credibility.

This document outlines some of the key considerations when planning a website that contains more than one language. It is aimed at any organisation with a website, but will also be useful to translators, who increasingly need to help their customers understand multilingualism and highlight potential issues which may not be obvious to an organisation accustomed to working monolingually.

There are many different ways to run a multilingual website, and to decide which is best for your organisation, a number of different factors must be considered.

Website Content

The most basic step is to decide what content will be available in which languages.

- Which languages will be supported? Might more languages be needed later?
- Does everything need to be translated, or only certain portions?
- Will the website say the same thing in each language, or should there be specific text targeting, say, particular export markets?

Then you need to decide how the content will be organised.

- Will the exact content of each web page be available in every language? This can be the most flexible and efficient solution, but to do it effectively you will want a software system which handles the necessary workflow.
- Or will there be one page containing the same text in two languages? This might be a simple choice for a small bilingual website, although it can become cluttered if more text/languages are added later.
- Or will completely separate websites target each language? This can work if you have specific content for particular languages; however, it is harder to share material between languages.

It is very important to understand the kind of material on the website.

- How often will the website be updated? Unlike leaflets or books, creating web content is generally an ongoing process, so it is important to consider how to handle updated material in multiple languages.
- Will material typically be modified after it is published? Some content is not normally modified – e.g. blog/news items. Other material will be tweaked again and again – e.g. price lists. You do not want to pay for a whole page to be re-translated every time there is a minor update, so you want a system that tracks changes if this will happen often.
- Will there be much dynamic content, such as menu text, button captions and sentences generated by the website itself? Some websites are more like application software and do not have many pages of static text: e.g. a webmail system. Dynamic text causes specific

translation and design issues, e.g. due to lack of linguistic context and space limitations. In such cases you are likely to need more specialist guidance on translating computer programs.

Choosing a Content Management System

If you are about to choose software to manage your website, then wait! This is one of the most important decisions you will make, and your choice can make a massive difference to the cost and quality of translations. This is because different systems vary hugely in how well they support multilingual workflows.

Each year, many large organisations waste hundreds of thousands of pounds because they choose a content management system, only to realise too late that it has deficient support for multilingualism. Staff are then left trying to work around the system's failings and much effort is wasted on copying and pasting text and unnecessary retranslation. Worse still, inaccurate or nonsensical content can all too often appear on the website, a PR disaster which may damage business opportunities. You can avoid all this by choosing a system that supports the workflow your organisation needs.

If you are already stuck with a system which has poor multilingualism support, then you can at least plan your processes around its limitations to minimise additional costs and reduce the potential for errors.

Here are some key questions to ask about any content management system:

- How does an author add content?
- Must a translator add content in the same way, or are there special features for translation?
- Does the system track multiple language versions of the same page? Is there a way to ensure translations are up to date?
- Can users switch languages whilst remaining on the same page? (They may need to do this if they have followed a link from another website)
- Does the system track changes automatically? Can the translator easily see what has changed? Does the system tell the translator when changes need translating?
- Can the translator use specialist translation memory software? Such software improves productivity and translation consistency by providing access to previous translations, bilingual term lists, language proofing tools etc
- Can the system export/import content in standard file formats for website translation, such as XLIFF?
- Are the translations input into the content management system automatically, or must an administrator perform the task? Such administrative tasks are surprisingly error-prone, especially if the administrator does not understand the target language, and resolving errors can end up costing more than the translation itself.
- Can the translator proofread the translation on the website before it is published? This is the best way to avoid embarrassing errors.

The Translation and Publishing Process

It is important to choose the correct translation and publishing workflow for your website, and ensure that authors and translators understand this process. Here are some key questions to consider.

- Who is responsible for writing content? How often will content be created or modified, and what volume of new text will there be? Note it is not safe to assume that anyone who speaks a language can write publication-standard content.
- Who is responsible for translating? Remember that bilingual speakers are not necessarily professional-quality translators. When commissioning translation work, you should choose a translator accredited by a recognised body, such as Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru (the association of Welsh translators and interpreters). For a list of recognised bodies, see the website of the International Federation of Translators, <http://www.fit-ift.org/>.
- How does the translator obtain the content? Will they be automatically notified when material is awaiting translation?
- What is the workflow when content has been modified? Can the translator readily identify which text has been modified? Or will the rest of the text be retranslated at full cost?
- How much time is set aside for the translation process? How will the translated version reach the website?
- Will the translator proofread the translated content on the website before it is published? Does the workflow allow sufficient time for errors to be corrected?

Further Information

This document is a brief introduction to multilingual websites management, which aims to highlight some of the issues to consider. For further information, please go to the CATcymru website at <http://www.catcymru.org/>. You can also register for one of our seminars, where we will demonstrate different software platforms and tools so you can find out whether they suit your needs.